

Cyngor Tref.  
CRICCIETH.

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 7.00y.h NOS LUN 8 RHAGFYR  
2014 YN SIAMBR Y CYNGOR STRYD FAWR CRICCIETH

Gweddi Agoriadol.

.....

Cymerwyd y Weddi agoriadol gan y Cyng. Eirwyn Williams.

Cof;-0112/14 Presennol.

.....

Cadeirydd Cyng. Eirwyn Williams

Is Gadeirydd Cyng. W A Evans

Cyng. Siân Williams.

Cyng. E Tudor Jones.

Cyng.Herny Jones

Cyng. T Price.

Cyng. Cadwalader

Cyng. Elisabeth Regan

Cyng. Elisabeth George

Cyng. Dafydd Lloyd

Cyng. Phil Jones.

Cof;-0212/14 Ymddiheuriadau.

.....

Cyng. Wayne Roberts.

Cof;-0312/14 Datgan diddordeb.

.....

Bu i'r Cynghorwyr Phil Jones a W A Evans ddatgan diddordeb mewn cais cynllunio ar Llwyn Madyn.

Cof;-0412/14 Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mis Tachwedd 2104.

.....

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Tachwedd fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Cof;-0512/14 Materion yn codi trwy ohebiaeth.

.....  
a) Torri coed yn Lôn Fel

Derbyniwyd adroddiad swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd yn egluro fod y tiffeddiannwr a'r contractwr wedi cysylltu â'i Gyngor cyn cychwyn ar y gwaith. Nid oedd y coed dan sylw wedi ei gwarchod nac o fewn ardal cadwraeth. Yn ystod ei gyfarfod yr oedd yn amlwg fod yna goed wedi tyfu yn rhy fawr i'w lleoliad a bod yna risg at y dyfodol gan fod yna bwysau sylweddol dros y ffordd, felly nid oedd gan ei Gyngor wrthwynebiad i'w torri. Ynglŷn ar ymholiad am ardal gadwraeth eglurodd y swyddog ei fod wedi anfon ymlaen i'r swyddog perthnasol.

PENDERFYNIAD:- Derbyn y wybodaeth.

Cof;-0612/14 Ceisiadau Cynllunio.

.....  
a) Cais Rhif C14/1001/35/LL

Trosi cyn fecws yn annedd  
Yng nghefn 31.Lon Castell.

PENDERFYNIAD:-Argymell caniatáu

b) Cais C14/1152/35/LL

Estyniad llawr cyntaf gan gynnwys codi lefel y to, creu balconi a newidiadau i'r ffenestri.

Llwyn Madyn, Ystâd Muriau.

*(Bu i'r Cyngorwyr Phil Jones a W A Evans ddatgan diddordeb yn y cais yma a gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth)*

PENDERFYNIAD;-Argymell caniatáu.

*(Ni chymerodd yr Aelod Sirol Cyng. Eirwyn Williams ran yn y trafodaethau penderfyniadau na` phleidleisio ar y ceisiadau cynllunio uchod)*

Cof;-0712/14 Pennu Presept am 2015/16.

.....  
Cyflwynodd y clerc ffigyrau ac amcangyfrif costau'r Cyngor am y flwyddyn 2015/16 iddynt gael gwneud penderfyniad ar presept teg.

PENDERFYNIAD;-Cadw'r presept ar yr un lefel a blwyddyn 2014/15 sef £34,000.

Cof;-0812/14 Prosiectau.

.....

Nid oedd yr is bwyllgor wedi cael cyfle i gyfarfod y Swyddog Adfywio Bro,

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth a rhoi'r mater ar raglen y cyfarfod nesaf.

Cof;-0912/14 Llwybr Rhif 11

.....

Adroddodd y Cadeirydd bod yr is bwyllgor wedi cyfarfod Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ac iddo egluro fod un ffermwr yn ystyfnig iawn yn gwrthod caniatâd i osod clwyd yn lle camfa, a bod rheolau diogelwch ac iechyd yn mynnu bod clwyd yn cael ei gosod ar lwybrau cyhoeddus lle mae camfa yn bod.

Mae'r Cyngor Sir ynghyd a nifer o asiantaethau eraill yn ceisio dwyn pwysau arno i newid ei feddwl. Ar yr un pryd adroddwyd fod y llwybr angen sylw.

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr wybodaeth a rhoi cyfle i'r Aelodau ei gerdded yn ystod tymor y Nadolig ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod Mis Ionawr cyn symud ymlaen i ohebu ymhellach a Chyngor Gwynedd.

Cof;- 1004/14 Nadolig

.....

Yn ystodc tradfodaethau ar yr anfoneb ar gostau yr addurniadau Nadolig by i'r Clerc awgrymu fod arian yn cael ei glustnodi ar gyfer ar achlyusr blynyddol yma gan fod amser yn dod y bydd angen adenywddu nifer o ohonynt.

Deallwyd fod Aelol o'r cyhoedd wqedi rhoi y coed bach Nadolig am ddim i'r Siopau iddynt allu addurno ei adeiladau.

PENDERFYNIAD;- Y Clerc i roi etiem am y Nadolig ar ragflen cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ac iddo hefyd anfon gair o ddiolch i'r person a roddodd y coed Nadolig fel anrheg i'r busnesau lleol.

Cof;1112/14 Derbyniadau.

.....

£510.00 Cyfraniad Cyngor Gwynedd at gostau cynnal a chadw llwybrau.

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth

Cof;-1212/14 Taliadau.

.....

£ 477.60	Atkin Groundworks – Danfon codi a thynnu coeden Nadolig	100922
£ 97.00	Cyllid y wlad (PAYE)	100923
£ 226.65	Glasfryn - Coeden Nadolig	100925
£5211.25	R J Electrics – Golau Nadoli y Dref	100926

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth a rhoi hawl i'r Clerc dalu'r oll o'r biliau.

**Mynd yn Gaeedig i drafod Cymynrodd Ddiweddar J T Roberts.**

.....

Ar ôl trafodaeth hir penderfynwyd ar i'r Clerc wahodd swyddogion Age Cymru i gyfarfod holl Aelodau'r Cyngor mewn cyfarfod arbennig yn ystod Mis Ionawr ac yn y cyfamser gofyn am gopiau o'r dogfennau perthnasol i gael cyfle i'w astudio cyn y cyfarfod.

**Aeth y Cyngor yn ôl yn agored.**

\_\_\_\_\_  
Daeth y Cyngor i ben am;7.50 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Lun 12 Ionawr 2015.  
Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 5 Ionawr 2015.

\_\_\_\_\_

